Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

# CÔR Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

# National Youth CHOIR of Wales



# CLYWELIADAU 2008 AUDITIONS

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru National Youth Arts Wales · TŶ CERDD Music Centre Wales · Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru · WJEC CBAC · Cyngor Celfyddydau Cymru / The Arts Council of Wales



Y Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn Neaudd Frenhinol Albert, Gorffennaf 2007.

The National Youth Choir of Wales with the BBC National Chorus of Wales at the Royal Albert Hall, London, July 2007.

## AM Y CCIC

Ffurfiwyd Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, yn dilyn cwrs peilot a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Bae, Aberystwyth ym mis Tachwedd 1984, i gefnogi traddodiad corawl hirsefydlog Cymru yn ogystal â'r datblygu sydd ei angen er mwyn i'r traddodiad hwnnw ffynnu. I'r diben hwnnw, bydd Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn comisiynu darnau newydd yn rheolaidd, yn ychwanegol at archwilio repertoire corawl rhyngwladol sy'n ymestyn dros bron pum canrif.

Daw aelodau'r Côr, pob un ohonynt rhwng 16 a 21 oed, o bob rhan o Gymru, a byddant yn mynychu clyweliadau bob blwyddyn. Byddant yn cyfarfod am gyrsiau o bryd i'w gilydd, ond mae prif waith y Côr wedi ei ganoli ar wythnos o ymarfer dwys yn ystod yr haf, gyda chyfres o gyngherddau i ddilyn. Mae mwyafrif y tiwtoriaid a'r staff yn gyn-aelodau o'r Côr - roedd Llywydd y Côr, Bryn Terfel, yn un o'r aelodau cyntaf - a chaiff y cyfarwyddwyr cerdd eu penodi am gyfnod arferol o dair blynedd. Ymhlith y cyn-arweinwyr mae George Guest, Gregory Rose, John Hugh Thomas, Simon Halsey, Ralph Allwood, Jean Stanley Jones, David Rowland ac Islwyn Evans.

Mae Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wedi cynnal cyngherddau yn Llundain, Berlin, Leipzig, Bruges, Brwsel, Paris, Fienna, Budapest a Dulyn, yn ogystal â pherfformio ar draws Cymru, ac mewn nifer o brif eglwysi cadeiriol Lloegr. Bydd y darlledu'n rheolaidd ar y teledu a'r radio.

## DAVID LAWRENCE (Cyfarwyddwr Cerdd)

David Lawrence yw un o arweinyddion ifanc mwyaf amryddawn y DU, ac mae wedi ennill enwogrwydd neilltuol am ei waith gyda chorau a chorysau. Bydd yn gweithio'n rheolaidd gyda Chôr Radio'r Iseldiroedd a Chorws Symffoni Dinas Birmingham ac ef yw deiliad Record Byd *Guinness* am arwain y côr mwyaf yn y DU (6,846 o gantorion).

Mae ei waith wedi arwain David i Awstralia, India, Canada, De America yn ogystal ag Ewrop ac mae ganddo brofiad arbennig o arwain cerddoriaeth gyfoes. Ymhlith ei waith teledu mae 'The People's Chorus' a 'Songs of Praise' ac mae'n feirniad poblogaidd yn y gystadleuaeth 'BBC Choir of the Year'. Yn ystod haf eleni, bydd David yn arwain corau ieuenctid torfol gyda Cherddorfa Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, *Sinfonia Viva*, yr *English Symphony Orchestra*, yn ogystal â chyfarwyddo yng Ngŵyl Gerdd Ulverston a Bwrdeistref Newham yn y *Royal Festival Hall* cyn dychwelyd unwaith eto i Queensland, Awstralia i gynnal gweithdy a pherfformio fel arweinydd gwadd yno.

## ABOUT THE NYCW

The National Youth Choir of Wales was formed by the Welsh Amateur Music Federation, as the result of a pilot course held in the Bay Hotel, Aberystwyth in November 1984, to support both the long-standing choral tradition of Wales and the development needed for that tradition to flourish. Toward this end, the National Youth Choir of Wales, in association with the Friends of the Choir, regularly commissions new music in addition to exploring an international choral repertoire that spans some five centuries.

Members of the Choir, who are aged between 16 and 21 years, are drawn from all parts of Wales, and auditioned annually. They meet for occasional day or weekend courses, but the Choir's main work is concentrated in a week of intensive rehearsals in the summer, followed by a series of concerts. The majority of tutors and staff are drawn from former members of the Choir - the Choir's President, Bryn Terfel, was himself a founder member – and musical directors are usually appointed for a three-year period. Former conductors include George Guest, Gregory Rose, John Hugh Thomas, Simon Halsey, Ralph Allwood, Jean Stanley Jones, David Rowland and Islwyn Evans.

The National Youth Choir of Wales has given concerts in London, Berlin, Leipzig, Bruges, Brussels, Paris, Vienna, Budapest and Dublin, in addition to performing throughout Wales, and at many of the major cathedrals in England. It broadcasts regularly on television and radio.

## DAVID LAWRENCE (Music Director)

David Lawrence is one of the UK's most versatile young conductors, particularly known for his work with choirs and choruses. He works regularly with the Netherlands Radio Choir and the City of Birmingham Symphony Chorus, and holds the Guinness World Record for conducting the largest choir in the UK (6,846 singers.)

David's work has taken him to Australia, India, Canada, South America as well as Europe and has particular experience in conducting contemporary music. His television work has included 'The People's Chorus' and 'Songs of Praise' and he is a popular adjudicator for the BBC Choir of the Year competition.

This summer David directs massed choirs of young people with the Orchestra of Welsh National Opera, Sinfonia Viva, the English Symphony Orchestra, as well as for the Ulverston Music Festival and the Borough of Newham at the Royal Festival Hall before making a return workshop and guest conducting visit to Queensland, Australia.

## CYRSIAU & CYNGERDDI 2009

GWEITHDAI RHANBARTHOL*

| | |
|---|---|
| Sadwrn 7 Mawth | Gogledd Cymru a Chaerfyrddin |
| Sul 8 Mawrth | Caerdydd |

GWEITHDY CENEDLAETHOL*

| | |
|---|---|
| Sadwrn 25 Ebrill | Llandrindod |

**Noder: Bydd gofyn i chi fynychu'r gweithdy cenedlaethol ac un o'r gweithdai rhanbarthol.*

CWRS HAF

| | |
|---|---|
| Sadwrn 18 - Sadwrn 25 Gorffennaf | Prifysgol Cymru, Bangor |

CYNGHERDDAU

| | |
|---|---|
| Iau 23 Gorffennaf | Eglwys Gadeiriol, Bangor |
| Gwener 24 Gorffennaf | Eglwys Gadeiriol, Llanelwy |
| Sadwrn 25 Gorffennaf | Eglwys San Silyn, Wrecsam |

(Lleoliadau cyngherddi o bosib yn newid.)

## 2009 COURSE & CONCERTS

REGIONAL WORKSHOPS*

| | |
|---|---|
| Saturday 7 March | North Wales & Carmarthen |
| Sunday 8 March | Cardiff |

NATIONAL WORKSHOP*

| | |
|---|---|
| Saturday 25 April | Llandrindod Wells |

**Note: You are required to attend the national workshop and at least one of the regional workshops.*

SUMMER COURSE

| | |
|---|---|
| Saturday 18 - Saturday 25 July | University of Wales, Bangor |

CONCERTS

| | |
|---|---|
| Thursday 23 July | Bangor Cathedral |
| Friday 24 July | St Asaph Cathedral |
| Saturday 25 July | St Giles's Church, Wrexham |

(Concert venues may be subject to change.)

## COST

Cost y cwrs yw £295.00, sydd i'w dalu mewn dau randal ym mis Rhagfyr 2008 ac Ebrill 2009.

## COST

The cost of the course is £295.00, due in two instalments paid in December 2008 and April 2009.

## CYMORTH ARIANNOL

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau na fydd rhesymau ariannol yn atal unrhyw un rhag gwneud cais am Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Ymdrinnir yn gwbl gyfrinachol ag unrhyw geisiadau am gymorth ariannol.

## FINANCIAL ASSISTANCE

We are keen to ensure that no-one is deterred from applying for the National Youth Choir of Wales for financial reasons. All applications for assistance are treated in strictest confidence.

## GOFYNION

- Derbynnir ymgeiswyr i'w clyweld ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Bennaeth Gwasanaeth Cerdd eu sir (neu ei g/chynrychiolydd neu gywerth) a disgwylir iddynt gefnogi gweithgaredd cerddorol yn yr ysgol/coleg ac ar lefel sirol. Os nad oes gweithgaredd sirol, gall y Pennaeth Adran yn yr ysgol neu goleg gefnogi ceisiadau i ddechrau.
- Dylai ymgeiswyr fel arfer fod o safon Gradd VIII er nad oes angen iddynt fod wedi sefyll yr arholiad.
- Dylai ymgeiswyr fod rhwng 12 - 21 mlwydd oed ar 31ain Awst 2008 (neu 22 os ydynt mewn addysg lawn-amser o hyd).
- Rhaid i gantorion fod ar gael ar gyfer holl ddyddiadau'r cyrsiau a'r cyngherddau. Gwnewch yn siŵr y byddwch ar gael cyn ymgeisio.

## REQUIREMENTS

- Candidates are accepted for audition on the approval of their county Head of Music Service (or his/her authorised representative or equivalent) and are expected to support music activity at school/college and county level. Where county activity does not exist, the Head of Department in school or college may initially support applications.
- Candidates should normally be of around Grade VIII standard though they do not need to have to have taken the exam.
- Candidates should be between 12 and 21 years old on 31st August 2008 (or 22 if still in full-time education).
- Choristers must be available for all course and concert dates. Please check your availability before applying.

## Y CLYWELIAD

Rhoddir profion byr i chi i ddangos eich ystod lleisiol, clust, ynganiad a chanu ar yr olwg gyntaf. Gofynnir i chi ddod ag unawd o'ch dewis eich hun gyda chi, a byddwn yn darparu cyfeilydd ar gyfer hyn.

I gael manylion llawn am drefn y clyweliad ynghyd ag awgrymiadau ar sut i baratoi yn llawn, dilynwch y cysylltau ar ein gwefan (www.nyaw.co.uk)os gwelwch yn dda. Cynhelir y clyweliadau ym mis Tachwedd trwy Gymru yn y canolfannau ac ar y dyddiadau a roddir isod. Dylech nodi ar y ffurflen gais amgaeëdig pa ganolfan yr hoffech ei mynychu. Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich apwyntiad ym mis Hydref.

**Mae'r clyweliadau'n rhad ac am ddim** ond mae gofyn i chi anfon siec, yn daladwy i FfCAC (CCIC), am £15.00 fel blaendal. Dychwelir y siec hwn i chi os byddwch yn dod i'ch apwyntiad fel a gytunwyd. Bydd y tâl hwn yn cael ei fforffedu os nad ydych yn dod i'ch apwyntiad.

## THE AUDITION

You will be given short tests to demonstrate your vocal range, ear, intonation and sight-singing. You will be asked to bring a solo of your own choice with you for which we will provide an accompanist.

For full details of the audition procedure along with tips on how to prepare fully, please follow the links on our website (www.nyaw.co.uk).

Auditions will take place in November throughout Wales at the centres and dates given below. You should indicate on the enclosed application form which centre you would like to attend. We will contact you with details of your appointment in October.

**Auditions are free of charge** but you are required to send a cheque, made payable to WAMF (NYCW), for £15.00 as a deposit. The cheque will be returned to you if you attend your appointment at the agreed time. Those failing to appear for the auditions will forfeit the payment.

## DYDDIADAU A LLEOLIADAU CLYWELIADAU

| | |
|---|---|
| Llun 3 Tach | Gogledd Cymru |
| Mawrth 4 Tach | Aberystwyth |
| Mercher 5 Tach | Caerfyrddin |
| Iau 6 Tach | Abertawe |
| Gwener 7 Tach | Caerdydd |
| Llun 10 Tach | Casnewydd |

Seilir y trefniadau hyn ar wasgariad daearyddol nodweddiadol ymgeiswyr a gellir eu newid os bydd llai na 12 ymgeisydd i bob lleoliad. Yn yr un modd, gellir ychwanegu dyddiad/lleoliad arall os bydd digon o alw am hynny.

## AUDITION DATES & VENUES

| | |
|---|---|
| Mon 3 Nov | North Wales |
| Tue 4 Nov | Aberystwyth |
| Wed 5 Nov | Carmarthen |
| Thu 6 Nov | Swansea |
| Fri 7 Nov | Cardiff |
| Mon 10 Nov | Newport |

These arrangements are based on the typical geographical spread of candidates and are subject to change if there are fewer than 12 candidates per venue. Equally, an additional date/venue may be added if there is sufficient demand.

## SUT I YMGEISIO

Llenwch y ffurflen gais sydd ynghlwm a'i hanfon gyda'ch blaendal i'r cyfeiriad isod cyn 30ain Medi 2008.

**Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Tŷ Cerdd,**
**Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL**

Bydd amser eich clyweliad yn cael ei anfon atoch tua diwedd mis Hydref.

## HOW TO APPLY

Please complete the attached application form and send with your deposit to the address below before 30th September 2008.

**National Youth Choir of Wales, Tŷ Cerdd,**
**Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff. CF10 5AL**

You will be notified of your audition time towards the end of October.

## GWYBODAETH BELLACH

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am CCIC neu unrhyw un ensemble cerdd arall sy'n rhan o Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar 029 2063 5649/50 neu nycw@tycerdd.info

## FURTHER INFORMATION

You can obtain further information about the NYCW or any of the other National Youth Arts Wales music ensembles from 029 2063 5649/50 or nycw@tycerdd.info

# CAIS I YMUNO Â CCIC
# APPLICATION TO JOIN NYCW 2009

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar gronfa ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. O dro i dro efallai y byddwn am drosglwyddo eich manylion cysylltu i fudiadau celfyddydau eraill sydd wedi'u sgrinio'n ofalus. Os nad ydych am i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: □

The information will be stored on the National Youth Arts Wales database. From time to time we may wish to pass your contact details to other, carefully screened, arts organisations. If you do not wish us to do this, please tick this box: □

PRINTIWCH Y WYBODAETH I GYD MEWN PRIFLYTHRENNAU PLEASE PRINT ALL INFORMATION IN BLOCK CAPITALS

LLAIS
VOICE ______________________ GRADD
GRADE __________ DYDDIAD A BASIWYD
DATE PASSED ______________

yr hoffech gael eich clyweld arno/arnynt on which you wish to be auditioned

CYFENW
SURNAME ______________________

ENW(AU) CYNTAF
FIRST NAME(S) ______________________

DYDDIAD GENI
DATE OF BIRTH ______________________

OEDRAN AR
AGE ON 31.08.09 ______ bl. yr. ______ m.

CYFEIRIAD CARTREF
HOME ADDRESS ______________________________________________

TREF/DINAS
TOWN/CITY ______________________

CÔD POST
POST CODE ______________

AWDURDOD LLEOL
LOCAL AUTHORITY ______________________

RHIF FFÔN CARTREF
HOME PHONE NUMBER ( ______ ) ______________

RHIF FFÔN SYMUDOL
MOBILE NUMBER ______________________

CYFEIRIAD EBOST
EMAIL ADDRESS ______________________

YSGOL/COLEG
SCHOOL/COLLEGE ______________________

GWASANAETH CERDD
MUSIC SERVICE ______________________

CYFEIRIAD YN YSTOD Y TYMOR
TERM-TIME ADDRESS ______________________________________________

(os yw'n wahanol i'r uchod) (if different from above)

Gyda pha gorau / onsomblau rydych chi wedi / ydych chi'n perfformio?
With which choirs / ensembles have you performed / do you perform?

YSGOL
SCHOOL ______________________________________________

SIR
COUNTY ______________________________________________

CENEDLAETHOL
NATIONAL ______________________________________________

ARALL
OTHER ______________________________________________

Profiad canu arall (gwobrau cerdd ayb.)
Other singing experience (music prizes/awards etc.)

______________________________________________

Pwy sy'n rhoi gwersi canu i chi?
With whom do you have singing lessons? ______________________

Ydych chi'n chwarae offeryn? Nodwch.
Do you play an instrument? Please specify. ______________________ GRADD
GRADE ______________

TROSODD
PLEASE TURN OVER

Sut wnaethoch chi glywed am y CCIC?
How did you hear about the NYCW?

❑ athro canu singing teacher ❑ athro cerdd yn yr ysgol school music teacher

❑ gwasanaeth cerdd y sir county music service ❑ gwefan CCIC NYAW website

Arall, nodwch Other, please state ______________________________________________

❑ Hoffwn gael gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (lle bod hi'n bosib).
❑ I would like all correspondence to be in English.

CANOLFAN GLYWELD FYDDAI ORAU GENNYCH
Ticiwch y blwch gyferbyn â'r ganolfan glyweld o'ch dewis:

PREFERRED AUDITION CENTRE
Please tick the box of your chosen audition centre:

❑ Gogledd Cymru North Wales ❑ Aberystwyth ❑ Caerfyrddin Carmarthen

❑ Abertawe Swansea ❑ Caerdydd Cardiff ❑ Casnewydd Newport

Amgaeir siec am £15.00, yn daladwy i FFCAC (CCIC) fel blaendal. Deallaf y byddaf yn fforffedu'r arian hwn os na fyddaf yn dod i'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd.
I enclose a cheque for £15.00, made payable to WAMF (NYCW) as a deposit. I understand that I will forfeit this money if I fail to attend the audition at the agreed time.

Rwy'n cadarnhau y byddaf ar gael am gwrs CCIC a dyddiadau'r cyngherddau.
I confirm that I am available for all of the NYCW course and concert dates.

LLOFNOD YR YMGEISYDD
SIGNATURE OF APPLICANT ______________________________________

DYDDIAD
DATE _ _ / _ _ / _ _ _ _

*CYMERADWYIR Y CAIS GAN BENNAETH CERDD YR YSGOL/COLEG
*APPLICATION ENDORSED BY SCHOOL/COLLEGE HEAD OF MUSIC

LLOFNOD SIGNATURE ______ ANGHENRHEIDIOL ESSENTIAL ______

DYDDIAD
DATE _ _ / _ _ / _ _ _ _

*CYMERADWYIR Y CAIS GAN BENNAETH GWASANAETH CERDD Y SIR / CYNRYCHIOLYDD AG AWDURDOD
*APPLICATION ENDORSED BY COUNTY HEAD OF MUSIC SERVICE / AUTHORISED REPRESENTATIVE

LLOFNOD SIGNATURE ______ ANGHENRHEIDIOL ESSENTIAL ______

DYDDIAD
DATE _ _ / _ _ / _ _ _ _

* gweler y 'Gofynion' ar dudalen 4.
*see 'Requirements' on page 4.

DS. Na ellir ystyried ceisiadau heb eu cymeradwyo.
NB. Unendorsed applications will not be considered.

Dychwelwch y ffurflen gais wedi'i llenwi ynghyd â siec am £15.00 yn daladwy i FfCAC (CCIC) i'r cyfeiriad isod cyn 30ain Medi 2008.

Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Tŷ Cerdd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL

Please return the completed application form together with a cheque for £15.00 made payable to WAMF (NYCW) to the address below before 30th September 2008.

National Youth Choir of Wales, Tŷ Cerdd, Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff. CF10 5AL

# DYDDIAD CAU 30.09.08 CLOSING DATE